

Polisi Cynaliadwyaeth Amgylcheddol

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn gymwys ac yn berthnasol i'r Ardd yn gyfangwbl, gan gynnwys fferm yr ystad a'r Warchodfa Natur Genedlaethol (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'yr Ardd').

Yr Ardd yw'r ardd fotaneg genedlaethol gyntaf i'w sefydlu yn y DG yn ystod y ganrif hon, sefydliad newydd sbon i Gymru; lle o arwyddocad rhyngwladol, sydd wedi ymrwymo i gadwraeth, garddwriaeth, gwyddoniaeth, addysg a'r celfyddydau.

Mae'r Ardd yn cydnabod bod gan ei gweithgareddau effeithiau amgylcheddol posibl, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ar yr amgylchedd leol, genedlaethol a rhyngwladol. Yn ychwanegol, mae'r Ardd yn cydnabod ei chyfrifoldeb am gyfarfod ag anghenion yr amgylchedd nawr, heb amharu ar yr amgylchedd yn y dyfodol, ac mae'n amcanu at gyfrannu at leihau targedau carbon cendlaethol Cymru.

2. Pwrpas, amcanion, nodau

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod yr Ardd yn ymdrechu'n weithredol i reoli ei gweithgareddau a'i hadnoddau mewn dulliau sydd yn gynaliadwy'n amgylcheddol, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r polisi hefyd yn ceisio amlinellu a chyfathrebu amcanion yr Ardd i'w rhanddeiliaid, gan gynnwys ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, ac ymwelwyr, er mwyn sicrhau eglurdeb ei hamcanion a'i disgwyliadau, y mae disgwyl yn eu tro i unigolion eu cefnogi.

Yn unol â'r polisi hwn, mae'r Ardd yn ymrwymo i:

- Hyrwyddo cynaliadwyaeth amgylcheddol yn gadarnhaol i holl ymwelwyr yr Ardd (beth bynnag fo'u hoedran, cefndir a gallu), a thrwy ei holl raglenni addysgiadol ac allanol.
- Parhau i geisio lleihau ei hól troed carbon.
- Lleihau ei defnydd o, a'i dibyniaeth ar, danwydd ffosil, trwy gynhyrchu ei hynni cynaliadwy ei hun ar y safle gan ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys yn awr ynni heulol a biomás.
- Defnyddio dulliau amgylcheddol sensitif o drafndiaeth o amgylch y safle, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn cludo nwyddau ac offer yn enwedig, er enghraifft, bygis trydanol.
- Lleihau ei dibyniaeth ar gyflenwad dŵr allanol, trwy ddefnyddio tyllau turio, casglu dŵr glaw, a mabwysiadu dulliau o gadw dŵr ar y safle.
- Ceisio gwneud y mwyaf o ail-gylchu a gwneud gwrtaith ar y safle.
- Lleihau ei defnydd o chwistrellau cemegol sy'n peri niwed peilliol ac amgylcheddol, a defnyddio yn eu lle, lle bo hynny'n bosibl, rheolaethau organig a biolegol.
- Annog ac hyrwyddo buddion bioamrywiaeth, o fewn yr Ardd ffurfiol ac ar draws Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las.
- Amddiffyn, a lle bo hynny'n briodol, cynyddu bioamrywiaeth y safle, mewn ffyrdd addas.
- Cydymffurfio â, a lle bo hynny'n bosibl, rhagori ar y safonau a osodwyd gan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ar yr amgylchedd.

- Integreiddio egwyddorion cynaliadwyaeth amgylcheddol o fewn ei pholisïau a'i harferion, yn arbennig y rhai sy'n delio â phrynu a chaffael yn gynaliadwy nwyddau a gwasanaethau.
- Hyrwyddo a dewis prynu a chaffael yn lleol ac yn gynaliadwy.

Bydd nodau ac amcanion yr Ardd yn cael eu gweithredu drwy System Reoli Amgylcheddol, sy'n ymgorffori holl elfennau ISO 14001.

Bydd yr Ardd yn adolygu'n rheolaidd ei systemau a'i phrosesau mewn perthynas â'r polisi hwn, gan geisio cynnal gwelliannau parhaus. Fel un a arwyddodd Siarter Cynaliadwyaeth Llywodraeth Cymru, bydd yr Ardd yn ymrwmo i her cynaliadwyaeth, ac yn adrodd yn ôl arni – gan rannu arfer gorau a phrofiadau gydag eraill.

Bydd yr Ardd yn cyfathrebu'r polisi a'r strategaeth i'r staff, y cyhoedd, a'r rhanddeiliaid ehangach, er mwyn codi ymwybyddiaeth pawb am eu cyfrifoldebau, a'r gofynion arnynt, i gyfrannu at ac ymrwmo i welliannau amgylcheddol ehangach.